## What is the Welsh Charter?

The main aim of the charter is to create an increase in the children's social use of Welsh.

We are Seren and Sbarc, the official characters for the Welsh Language Charter. You are sure to see a lot of us around the school over the coming months.




### Think of language like this…



You can go to places on one wheel (language)



You can also do so on one big wheel and one small wheel



But when both wheels are of the same size and in good condition you will go much further

## Charter Awards

All schools will have the opportunity to win a bronze, silver and gold award. This will depend on the amount of Welsh spoken from day to day - in the school and in the community.

## What are the advantages of speaking Welsh?

### Economic Advantages

In Wales, people who are bilingual earn between 8% and 10% more than people who speak only one language.

### Educational Advantages

Academic research concludes that bilingual children are able to think more creatively and freely, and tend to achieve higher scores in IQ tests than their peers who speak only one language.


### Social Advantages

Being able to speak two languages provides people with openings into community life, the workplace as well as a more varied social life. Two languages, twice the choice!

### Cultural Advantages

Through history, music, books and through the world of television – a bilingual child has more choices. Two languages open two different windows on to the world!

# Siarter




# Iaith




Noddir gan Llywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Welsh Charter



**Beth yw'r Siarter Iaith?**
Nod y Siarter Iaith yw annog plant i siarad Cymraeg yn amlach mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.

Seren a Sbarc ydyn ni! Ni yw cymeriadau swyddogol y Siarter Iaith. Byddwn ni'n gymeriadau pwysig iawn ym mywyd eich plant yn ystod y misoedd nesaf. .




## Meddyliwch am iaith fel hyn...



Mi fedrwch fynd i lefydd ar un olwyn (iaith)



Felly hefyd ar olwyn fawr ac olwyn fach



Ond pan fo'r ddwy olwyn yr un maint ac mewn cyflwr da mi ewch ymhellach o lawer

**Gwobrau'r Siarter**
Bydd pob ysgol yn cael cyfle i ennill gwobr efydd, arian ac aur. Mae hyn yn dibynnu ar faint o Gymraeg maen nhw'n ei siarad o ddydd i ddydd - mewn sefyllfaoedd amrywiol yn yr ysgol a'r gymuned.

## Beth yw manteision Siarad Cymraeg?

### Mantais Economaidd

Mae pobl ddwyieithog yng Nghymru yn ennill rhwng 8% a 10% yn fwy mewn cyflog bob blwyddyn o'i gymharu â phobl sy'n siarad un iaith yn unig.

### Mantais Addysgol

Mae ymchwil academaidd yn cadarnhau bod plant dwyieithog yn gallu meddwl yn fwy creadigol a rhwydd ac yn tueddu i sgorio'n well mewn profion IQ na phlant sy'n siarad un iaith yn unig.

### Mantais Gymdeithasol

Mae siarad dwy iaith yn agor y drws i gymuned, byd gwaith a bywyd cymdeithasol llawer mwy amrywiol. Dwy iaith, dwywaith y dewis!

### Mantais Ddiwylliannol

Yn hanes, yn gerddoriaeth, llyfrau neu fyd teledu - mae gan blentyn dwyieithog fwy o ddewis. Dwy iaith, dwy ffenest ar y byd!




Noddir gan Llywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government